**RHIF AR YR AGENDA: 5**

**YN ADRODD I:** **GYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **9 RHAGFYR 2009**

**ADRODDIAD GAN:** **SWYDDOG MONITRO CYNGOR SIR Y FFLINT**

**PWNC:** **CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor ar hynt datblygiad y Cytundeb Rhwng Awdurdodau a fydd yn sail i gam caffael y prosiect.

## 2. CEFNDIR

2.1. Bydd angen Cytundeb Rhwng Awdurdodau er mwyn ffurfioli eu swyddogaethau a chyfrifoldebau unigol mewn perthynas â'r trefniadau cydweithio o ran caffael Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (y "Prosiect").

2.2. Bwriedir i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ddisodli'r Cytundeb Partneriaeth a wnaethpwyd rhwng y Cynghorau ym mis Tachwedd 2008.

2.3. Rhagwelir y bydd y Cytundeb Rhwng Awdurdodau'n cael ei gymeradwyo gan yr awdurdodau partner dan yr un amserlen cymeradwyo â'r Achos Busnes Amlinellol.

## 3. YSTYRIAETHAU

3.1. Bydd y Cytundeb Rhwng Awdurdodau'n rheoleiddio proses caffael y Prosiect hyd at y dyddiad y caiff y Contract ei weithredu gan y Cyngor Arweiniol (neu, os yn gynharach, y dyddiad y bydd y Cynghorau'n penderfynu peidio â bwrw ymlaen gyda'r Prosiect).

3.2. Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau'n nodi'r sail a ddefnyddir i ddosrannu risgiau a chyfrifoldebau rhwng y Cynghorau. Cafwyd cryn dipyn o drafod rhwng pob Cyngor sy'n golygu bod y Cytundeb Rhwng Awdurdodau wedi'i ddatblygu'n dda iawn ac, er nad yw wedi'i gwblhau eto na'i lofnodi gan bob un o'r Cynghorau, nid oes dim materion perthnasol sy'n disgwyl sylw rhwng y partïon.

3.3. Er gwaethaf yr amserlen fewnol ar gyfer llofnodi'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau (gweler 2.3 uchod), bydd yn rhaid ei lofnodi cyn i'r Prosiect fynd ar y farchnad (h.y. yng ngham ISDS). Serch hynny, mae'r ddogfen wedi'i datblygu'n ddigon da yn y cam hwn i ddangos tystiolaeth gref o gydweithio a dylid bod yn gymharol fodlon bod nifer o faterion allweddol wedi'u hystyried.

3.4. Pan gaiff y Contract ei lofnodi, mae’r Cynghorau wedi cytuno i arwyddo cytundeb (yr “Ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau”) a fydd yn nodi hawliau a rhwymedigaethau unigol pob Cyngor mewn perthynas â chamau cyflawni a gweithredu’r Prosiect.

3.5. Bwriedir i’r Ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau adlewyrchu telerau’r Contract ac ni ellir cwblhau hyn nes bydd y Cynghorau wedi cytuno ar delerau’r Contract hwnnw. Fodd bynnag, mae’r Cynghorau wedi ceisio nodi sawl maes (Penawdau’r Telerau) yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau y maent yn rhagweld y bydd angen eu datblygu er mwyn eu cynnwys yn yr Ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Nodi’r adroddiad.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ddim yn berthnasol

## 6. EFFAITH GWRTH-DLODI

6.1. Dim

## 7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

7.1. Ddim yn berthnasol

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Ddim yn berthnasol

## 9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1. Ddim yn berthnasol

## 10. YMGYNGHORIAD GOFYNNOL

10.1. Ddim yn berthnasol

## 11. YMGYNGHORIAD A WNAETHPWYD

11.1. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd yn ystod misoedd Medi, Hydref a Thachwedd 2009 rhwng y cynghorwyr cyfreithiol, Pinsent Masons, a

chynrychiolwyr cyfreithiol pob un o’r awdurdodau partner i drafod y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

**Swyddog Cyswllt:** Barry Davies (Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint)